# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PAPURAU BUSNES

# 12 Gorffennaf 1999

# Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

Cynigion a gyflwynwyd ar 9 Gorffennaf 1999 ar gyfer Cyfarfod Llawn 14 Gorffennaf 1999.

**Dadl Plaid Leiafrifol**

Michael German (Dwyrain De Cymru);

Cynnwys: **Banc Datblygu Menter i Gymru**

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd canolog Mentrau Bach a Chanolig i ddatblygiad economaidd Cymru yn y dyfodol, ac yn pryderu am y diffyg sylweddol yn narpariaeth bancio buddsoddi a gwasanaethau ariannol arbenigol yng Nghymru a all hwyluso twf mentrau cynhenid. Ymhellach, mae’r Cynulliad yn cydnabod y cyfle unigryw a fydd yn cael ei ddarparu gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop ar gyfer buddsoddi strategol yn y sector Mentrau Bach a Chanolig, ynghyd â meithrin yr ysbryd o fentergarwch sy’n hanfodol ar gyfer creu cyfoeth cynaliadwy. Felly mae’r Cynulliad yn credu y dylid ymgorffori’r cynigion i sefydlu Banc Datblygu Menter i Gymru *ar unwaith* yn y Ddogfen Strategaeth Genedlaethol.

**Cynnig i Gymeradwyo’r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau**

Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);

Cynnwys:

Cynnig y dylai’r Cynulliad gymeradwyo Penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Gwener 9 Gorffennaf 1999. (M67VB)

**Gwelliannau i Gynigion ar gyfer Cyfarfod Llawn 13 Gorffennaf 1999 a gyflwynwyd ar 9 Gorffennaf 1999**

**Y Cod Ymarfer ar gyfer Darlledu’r Trafodion**

Elin Jones (Ceredigion); Ychwanegu at ddiwedd Paragraff 1

Mewnosod; " a sicrhau triniaeth gyfartal i’r iaith Gymraeg a’r Saesneg." (M65JS)

**Y Trefniadau Darlledu Arfaethedig**

Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn); Mewnosod Paragraff 21

"Y cyflwynir adroddiad blynyddol i’r Cynulliad ar y drefniadaeth a gynhwysir yn y Cod hwn ac y bydd y cyfryw adroddiad yn cynnwys manylion cyfrifon archwiliedig y Cwmni Darlledu." (M65JS)